# Adroddiad Blynyddol Cydymffurfiaeth Safonau'r Iaith Gymraeg 2023/24

# Cyflwyniad

Mae gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH) ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg fel y gosodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd ar 30ain o Fedi 2016.

Mae Safonau'r iaith Gymraeg 155, 161 a 167 yn gosod gofyniad ar SAYH i gyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn sy'n cynnwys gwybodaeth am sut y mae'r sefydliad wedi cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg a gynhwysir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio.

# Uchafbwyntiau

Y prif uchafbwynt ar gyfer y cyfnod adrodd hwn yw'r cynnydd sylweddol a wnaed mewn gwella'r swm o wybodaeth ar gael yn awr yn y Gymraeg, yn enwedig ar ein gwefan.

Mae gwelliannau busnes penodol eleni yn cynnwys:

- Mae pob adran o fewn SAYH, ar y cyd â Rheolwr Datblygu'r Iaith Gymraeg, wedi dechrau gweithredu Cynlluniau Gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae'r Cynlluniau Gweithredu hyn yn cynorthwyo adrannau mewn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ofynion penodol Safonau'r Iaith Gymraeg mewn perthynas â'u maes busnes. Mae'r Cynlluniau Gweithredu hefyd yn galluogi adrannau i fonitro eu lefel o gydymffurfiaeth â Safonau Iaith Gymraeg perthnasol.

- Mae prosesau a dulliau o gofnodi dewis iaith yn y man cyswllt cyntaf wedi cael eu hadolygu i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau Iaith Gymraeg perthnasol.

- Mae ffurflenni datganiad tyst a thystiolaeth ddigidol wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac wedi cael eu cyhoeddi yn ein Llawlyfr Gweithrediadau ochr yn ochr â fersiynau Saesneg y ffurflenni.

- Mae cyfarwyddyd newydd wedi cael ei gyhoeddi ar fewnrwyd staff y SAYH (Yr Hyb) yn cynghori staff ar sut i ddiweddaru eu llofnodion e-bost i fformat dwyieithog.

- Ymgynghorwyd â gwasanaethau heddlu Cymru i ganfod eu dewisiadau iaith.

- Mae dogfennaeth cyllid wedi'i hanelu at y cyhoedd wedi cael ei ddiweddaru i fersiynau dwyieithog.

- Mae cydnabyddiaethau e-bost awtomataidd wedi'u hanelu at y cyhoedd wedi cael eu diweddaru i fod yn ddwyieithog.

- Cafodd ein "Hadolygiad achos o ben i ben - Chwefror 2024: Trais yn erbyn menywod a merched" ei gyhoeddi yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

- Mae taflenni apeliadau tystion a ddefnyddir yng Nghymru wedi cael eu diweddaru i fod yn ddwyieithog ac mewn fformat sy'n gallu cael ei ddefnyddio'n gydradd gan staff SAYH sy'n siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd ddim.

- Cafodd fideo yn y Gymraeg sy'n manylu ar sut i wneud cwyn i SAYH ei gynhyrchu i ddathlu ymgyrch "Defnyddia dy Gymraeg" 2023 ac mae ar gael nawr trwy wefan SAYH.

- Mae'r gyllideb ar gyfer cyfieithiadau iaith Gymraeg wedi cael ei hadolygu a'i chanoli er mwyn osgoi dyblygu a chydgyfeirio ag amcanion strategol.

- Mae gwybodaeth ar lefel unigolyn o sgiliau iaith Gymraeg yn cael ei chasglu nawr yn ystod proses recrwitio SAYH.

- Trefnwyd bod ffurflenni datblygiad personol SAYH ar gyfer staff ar gael yn y Gymraeg.

- Mae'r polisi Iechyd a Diogelwch wedi cael ei gyfieithu a'i ddarparu i staff yn y Gymraeg.

Mae uchafbwyntiau eraill y flwyddyn hon yn cynnwys:

- Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg sydd wedi gallu defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud â SAYH.

- Cynhelir "Siop Siarad" misol nawr trwy Teams ar ddydd Mawrth olaf pob mis. Cynhelir y digwyddiad hwn gan Reolwr Datblygu'r Iaith Gymraeg a Rhwydwaith Iaith Gymraeg y Staff. Mae'n darparu cyfle i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ar draws y sefydliad i ddod ynghyd i ddefnyddio/ymarfer eu Cymraeg a chyfarfod â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eraill.

# Cwynion

Nid oes cwynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg wedi cael eu derbyn yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

# Swyddi a hysbysebwyd

Yn ystod y cyfnod adrodd 2023/24:

- Ni hysbysebwyd unrhyw swyddi fel rhai Cymraeg hanfodol
- Hysbysebwyd 106 o swyddi fel rhai nad oedd angen unrhyw sgiliau Cymraeg

# Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod adrodd 2023/24 cofrestrodd 20 aelod o staff ar gyrsiau i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Cymraeg.

| Enw'r cwrs | Nifer dysgwyr SAYH sydd wedi cofrestru |
|---|---|
| Mynediad | 17 |
| Sylfaen | 2 |
| Gloywi Iaith | 1 |

# Sgiliau Iaith Gymraeg Gweithwyr

Gofynnwyd i'r holl staff gofnodi eu lefel o sgìl iaith Gymraeg i system Rheoli Pobl y SAYH. Gofynnwyd i staff asesu lefel eu sgìl yn erbyn 5 disgrifydd:

- Lefel 0 (Dim sgìl)
- Lefel 1 (Mynediad)
- Lefel 2 (Sylfaen)
- Lefel 3 (Canolradd)
- Lefel 4 (Uwch)
- Lefel 5 (Gloywi)

Ymatebodd 285 aelod o staff i'r arolwg, sef 29% o'r holl staff. Mae dadansoddiad o’r ymatebion i’w weld isod:

| Lefel sgìl | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Lefel 0 | 221 | 22% |
| Lefel 1 | 49 | 5% |
| Lefel 2 | 8 | 0.81% |
| Lefel 3 | 2 | 0.2% |
| Lefel 4 | 1 | 0.1% |
| Lefel 5 | 4 | 0.4% |

Cafodd prosesau wedi'u gwella ar gyfer casglu gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg y staff eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fodd bynnag mae gweithredu'r prosesau hyn wedi'i gwblhau'n rhannol yn unig. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd nesaf bydd y prosesau wedi cael eu gweithredu'n llawn, rydym yn disgwyl cynnwys set ddata llawn yn yr adroddiad monitro blynyddol nesaf.

# Cydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaeth

## Cyfathrebu â'r cyhoedd

Mae cyfarwyddyd wedi cael ei ddosbarthu i staff i roi cyhoeddusrwydd i ofynion y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau a'r angen i gydymffurfio â nhw. Mae gwybodaeth ar sut i gael cyfieithiadau Cymraeg ar gael i staff drwy fewnrwyd SAYH. Mae system rheoli achosion electronig newydd wedi cael ei ddatblygu i symleiddio'r broses o gadw cofnodion, a bydd dewis iaith defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei chadw ar y system newydd hon.

Mae'r papur pennawd a ddefnyddir gan ein swyddfa yng Nghaerdydd ar gyfer cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru yn cynnwys datganiad dwyieithog bod croeso i ohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae tudalen “cysylltu â ni” ein gwefan ar gael yn y Gymraeg, mae datganiad ar y dudalen hon yn egluro ein bod yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg. Ym mhob un o’n cyhoeddiadau rydym yn cynnwys datganiad ein bod yn croesawu cyswllt yn y Gymraeg. Pan fydd siaradwyr Cymraeg yn ffonio ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid, maent yn clywed neges yn y Gymraeg yn cynnig gwasanaeth Cymraeg. Mae holl staff ein swyddfa yng Nghaerdydd wedi cael cyfarwyddiadau ar gyfarch pobl ar y ffôn yn y Gymraeg, mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar ein mewnrwyd.

Cyhoeddir unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu a gynhyrchwn i’w ddefnyddio yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth fynychu digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru, rydym yn arddangos fersiynau Cymraeg o’n taflenni, gan gynnwys y daflen “Sut i wneud cwyn: canllaw i system gwynion yr heddlu”..

Enghreifftiau o ddogfennau i’r cyhoedd rydym yn eu cynhyrchu’n ddwyieithog yw:

- Sut i wneud cwyn: canllaw i system gwynion yr heddlu
- Ffurflen gwynion
- Ffurflenni adolygu/apelio
- Adroddiad Blynyddol Monitro Safonau'r Iaith Gymraeg
- Adroddiad Effaith
- Cynllun Busnes
- Cynllun Strategol
- Pecyn Teulu (gwybodaeth i deuluoedd mewn profedigaeth)
- Taflen Hawl Dioddefwyr i Adolygu

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae gwefan newydd SAYH wedi cael ei lansio a threfnwyd bod nifer gynyddol o'n tudalennau gwefan ar gael yn y Gymraeg. Lle mae tudalennau gwe ar gael yn y Gymraeg, dangosir hyn trwy ddefnyddio'r gair “Cymraeg” ar frig y dudalen.

Nid oes gan SAYH bresenoldeb ar Facebook. Mae ein negeseuon safonol ar X (pan yn berthnasol i Gymru yn unig) yn cael eu trydar yn ddwyieithog. Mae'r holl staff wedi cael gwybod am y gofyniad i ateb yn y Gymraeg unrhyw negeseuon cyfryngau cymdeithasol a dderbynnir yn y Gymraeg.

## Arwyddion

Mae unrhyw arwyddion a godir yng Nghymru yn ddwyieithog, er enghraifft byrddau apêl tystion. Mae cyfieithu testun ar gyfer arwyddion yn cael ei roi ar gontract allanol i gwmni cyfieithu.

## Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg

Hyrwyddir ein gwasanaethau Cymraeg drwy ein gwefan, canolfan cyswllt cwsmeriaid ac yn ein taflenni gwybodaeth.

Mae geiriad i ddangos bod aelod o staff yn siarad Cymraeg ar gael ar ein mewnrwyd i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg eu copïo a'u gludo i'w llofnodion e-bost.

Mae bathodynnau a chortynnau gwddf sy'n dangos y logo “Siarad Cymraeg” ar gael i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dymuno eu gwisgo.

# Cydymffurfio â Safonau Llunio Polisi

Hysbyswyd yr holl staff o'r gofyniad i ystyried y Gymraeg wrth lunio polisïau newydd ac adolygu polisïau presennol. Mae ein ffurflenni Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn annog staff i ystyried yr iaith Gymraeg ac yn fodd i nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a nodir. Bydd ein Rheolwr Datblygu’r iaith Gymraeg newydd yn cynorthwyo staff i sicrhau bod y Gymraeg wedi cael ei hystyried yn briodol o fewn ein polisïau, prosiectau a mentrau newydd a bod cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg yn cael eu cynyddu i’r eithaf.

# Cydymffurfio â Safonau Gweithrediadol

## Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

Mae polisi ar sut y byddwn yn defnyddio a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn fewnol wedi cael ei greu ac wedi'i gyhoeddi ar ein mewnrwyd. Roedd y polisi i fod i gael ei adolygu yn ystod y cyfnod adrodd 2023/24, fodd bynnag bydd hyn yn digwydd yng nghyfnod adrodd 2024/25 nawr.

## Prosesau recriwtio

Mae staff sy'n gweithio yn ein tîm Rheoli Pobl wedi cael gwybod am Safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â chyfathrebu yn y Gymraeg a chynnig dewis iaith i unigolion sy'n gwneud cais am rolau gyda SAYH.

## Cofnodi Gwyliau Blynyddol, Absenoldebau o'r Gwaith ac Oriau Gwaith Hyblyg

Mae ffurflenni sy'n cofnodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg ar gael yn y Gymraeg drwy ein system adnoddau dynol hunanwasanaeth ar-lein.

## Polisïau Adnoddau Dynol

Mae rhai o'r polisïau adnoddau dynol y cyfeirir atynt gyda Hysbysiad Cydymffurfiaeth Iaith Gymraeg SAYH wedi'u darparu yn Gymraeg, sef:

- Ymddygiad yn y gweithle
- Rheoli perfformiad
- Absenoldeb o'r gwaith

Mae gwaith yn parhau i adolygu, cyfieithu a chyhoeddi'r polisïau canlynol:

- Iechyd a lles yn y gwaith
- Cyflogau a buddion yn y gweithle
- Patrymau gwaith

## Gweithdrefnau Cwynion a Disgyblu Staff

Mae staff wedi cael canllawiau yn eu hysbysu y gallant wneud cwynion yn y Gymraeg ac y gallant ymateb yn y Gymraeg i gwynion neu honiadau a wneir amdanynt. Roedd y canllawiau a roddwyd i staff hefyd yn cynnwys:

- yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfarfodydd am gŵyn a wnaed ganddynt yn y Gymraeg
- yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfarfodydd ynghylch cwyn neu honiad a wneir yn eu herbyn
- yr hawl i gael eu hysbysu yn y Gymraeg o ganlyniad cwyn neu honiad yn eu herbyn.

# Rhwydwaith Staff yr Iaith Gymraeg

Mae Rhwydwaith Iaith Gymraeg SAYH (y Rhwydwaith) yn grŵp gwirfoddol sy'n cynnwys aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ac yn ddysgwyr Cymraeg yn ogystal ag aelodau o staff nad ydynt efallai'n siarad unrhyw Gymraeg ond sydd â diddordeb cadarnhaol yn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Pwrpas y Rhwydwaith yw:

- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle,
- cefnogi darparu gwasanaethau iaith Gymraeg i'r cyhoedd
- gweithredu fel grŵp ymgynghorol a chyfaill beirniadol i SAYH wrth ddatblygu polisïau, gweithdrefnau, prosiectau a mentrau newydd a all effeithio ar siaradwyr a dysgwyr Cymraeg

Yn ystod y cyfnod adrodd 2023/2024 mae'r Rhwydwaith wedi ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol i gefnogi'r Gymraeg yn SAYH:

- cynhaliodd y dathliad Diwrnod Rhwydweithio Staff SAYH blynyddol a digwyddiad hybrid a gynhaliwyd ar-lein ac yn Swyddfa Caerdydd. Mynychodd uwch swyddog o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i roi sgwrs fer ar rôl Comisynydd y Gymraeg ac i esbonio sut mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn effeithio ar fusnes SAYH.

- darparodd dair sesiwn codi ymwybyddiaeth ar gyfer Rhaglen Gynghreiriaeth SAYH. Cwmpasodd y sesiynau brofiadau byw siaradwyr Cymraeg, gan adnabod iaith wahaniaethol, cwrteisi ieithyddol a sut i fod yn gydymaith i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Darparodd y cymdeithion oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen adborth cadarnhaol iawn a gwnaethant roi newidiadau cadarnhaol yn eu bywyd gwaith ar waith i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, er enghraifft gan ddiwygio ymatebion e-bost mewnol awtomataidd i fod yn ddwyieithog fel cwrteisi i staff sy'n siarad Cymraeg.
- darparodd adborth ar ddatblygiad polisïau SAYH
- hyrwyddodd yr ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg
- dathlodd Ddydd Gŵyl Dewi

# Rhagor o Wybodaeth / darparu adborth

I gael rhagor o wybodaeth am gydymffurfiaeth SAYH â safonau'r iaith Gymraeg, neu os hoffech roi rhywfaint o adborth adeiladol i ni ynglŷn â'n gwasanaethau Cymraeg, cysylltwch â'n Rheolwr Datblygu'r Iaith Gymraeg, Catherine Baldwin: catherine.baldwin@policeconduct.gov.uk

Cyhoeddwyd Medi 2024

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)**

OGL Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Neges destun: **18001 020 8104 1220**

We welcome telephone calls in Welsh
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE